Hysbysiad Preifatrwydd – Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd

Mae ein Huned Genedlaethol Troseddau Bwyd yn trin data personol at ddibenion atal a chanfod troseddau bwyd. Mae hyn yn cynnwys erlyn troseddwyr.

Mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd wedi cofrestru â'r Comisiynydd Gwybodaeth fel 'Rheolydd Data' fel y'i diffinnir yn Neddf Diogelu Data 1998.

Er mwyn cyflawni'r dibenion hyn, efallai y bydd yr Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd yn dymuno datgelu data personol weithiau i drydydd partïon. Gall hyn gynnwys datgeliadau i'r Heddlu, Safonau Masnach, Iechyd yr Amgylchedd neu Asiantaethau eraill y Deyrnas Unedig, yr Undeb Ewropeaidd neu Asiantaethau Gorfodi Cyfraith Rhyngwladol eraill.

Rydym ni'n ceisio caniatâd fel y gellid rhannu'ch manylion, ar adegau prin iawn, gydag eraill sy'n gyfrifol am orfodi'r materion yr ydych yn rhoi gwybod amdanynt. Bydd pob datgeliad o'r fath yn cydymffurfio â Deddf Diogelu Data 1998.

Rhagor o wybodaeth am yr Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd